

Arbed

Ymenyddiau

Datblygu thrombectomi
yng Nghymru

#SavingBrains

Ailadeiladu bywydau ar ôl strôc

Cymdeithas

Strôc | **Stroke**
Association



"Roedd fy thrombectomi mor gyflym ac mor effeithiol – mae'n wyrthiol a dweud y gwir."

Karen, goroeswr strôc

Cynnwys

Rhagymadrodd	4
Beth yw thrombectomi?	6
Beth yw'r cyd-destun polisi yng Nghymru?	9
Lefelau cyfredol o thrombectomi yng Nghymru	11
Pam mae cyn lleied o gleifion yng Nghymru'n gallu cael at thrombectomi?	14
Argymhellion	23
Nodiadau ar y Diwedd	25



Rhagymadrodd

Mae thrombectomi mecanyddol (y cyfeirir fel arfer ato yn syml fel thrombectomi) neu gael gwared â tholchenni â llaw yn driniaeth sy'n newid y sefyllfa'n llwyr ar gyfer strôc. Mae thrombectomi yn arbed ymenyddiau, arian a bywydau. Mae'n newid hynt gwellhad o strôc ar amrantiad.

I'r 1 o bob 10 o gleifion strôc a all gael thrombectomi, gall y driniaeth hon wneud gwahaniaeth sy'n newid bywyd. Mae'n lleihau'n sylweddol y siawns o anabledau fel parlys, dallineb neu anawsterau cyfathrebu ar ôl strôc¹.

Mae'r driniaeth hefyd yn eithriadol o effeithiol o ran cost, gydag ymchwil yn dangos y byddai, ar gyfartaledd, un claf ychwanegol sy'n derbyn thrombectomi yn arbed £47,000 i'r GIG dros 5 mlynedd².

Fodd bynnag, er gwaethaf effeithiolrwydd y driniaeth, mae yna rhy ychydig o gleifion strôc yng Nghymru yn gallu cael thrombectomiau pan fo arnynt eu hangen. Derbyniodd llai nag 1% o gleifion strôc thrombectomi yn 2020/21.

Mae'r rhwystrau i wella cyfraddau thrombectomi yn gymhleth. Un o'r heriau mwyaf yw prinder arbenigwyr (Niwro-radiolegyddion Ymyriadol neu INRs) sydd wedi'u hyfforddi i gyflenwi'r driniaeth yng Nghymru, gyda dim ond dau yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd yng Nghaerdydd. O ganlyniad, nid yw gwasanaethau a ddefnyddir gan gleifion Cymru bob amser ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos i bawb sydd angen y driniaeth. Mae rhwystrau ymarferol, megis delweddu a chlodiant i gleifion, hefyd yn bodoli.

Gwaethygir y broblem gan y pwysau systemig sy'n wynebu'n GIG, a'r her y mae hyn wedi'i chreu i ymatebion brys i strôc. Mae'n rhaid perfformio thrombectomi o fewn ffenestr amser fer, ond mae llawer o gleifion strôc yn mynd i'r ysbyty yn rhy hwyr i hyn fod yn opsiwn iddynt.

Ond er bod rhai o'r heriau yn gofyn am ymagweddau cyfnod hir, mae yna gamau y gall Llywodraeth Cymru a'r GIG eu cymryd yn awr i alluogi mwy o gleifion i fanteisio ar thrombectomi.

Dyna pam mae arnom angen cynllun cyflawni newydd ar gyfer strôc gan Lywodraeth Cymru, y gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymrwymo'i hun iddo i gefnogi'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc. Dylai'r cynllun newydd roi sylw i rwystrau presennol, yn ogystal â blaenoriaethu'r gorchwyl o ddatblygu unedau strôc modern newydd sy'n gallu datblygu'u gwasanaethau thrombectomi eu hunain.

Dylai hyn gynnwys amserlenni pendant ar gyfer datblygu gwasanaethau thrombectomi newydd, diwygio unedau strôc a llwybrau atgyfeirio presennol, gweithredu i leihau amseroedd aros ambiwlansys a chyflymu derbyn cleifion strôc i ysbytai a hyfforddi'r arbenigwyr y mae arnom eu hangen ar fyrder.

Dylid ategu'r cynllun gan strategaeth eglur gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ynglŷn â chynyddu niferoedd ledled y gweithlu strôc i ddiwallu anghenion ein gwasanaethau strôc, a chael triniaeth i gleifion cyn gyflymed ag y bo modd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau a nodiadau briffio ledled y Deyrnas Unedig. Gellir canfod gwybodaeth am thrombectomi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ein gwefan.



Beth yw thrombectomi?

Thrombectomi yw un o'r ymyriadau meddygol mwyaf effeithiol a ganfuwyd erioed. Ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl sydd angen y driniaeth hon yn ei chael.

Achosir y mwyafrif o strociau gan dolchen gwaed yn rhwystro rhydweli yn yr ymennydd, gan ei amddifadu o'i gyflenwad gwaed. Tra bydd y dorchon yn parhau yno, gall meinweoedd yr ymennydd farw. Ar gyfer rhai o'r strociau hyn, ni waeth faint yw oed y claf, mae triniaeth thrombectomi yn bosibl.

Dylai thrombectomiau ddigwydd mewn canolfannau niwrowyddoniaeth arbenigol cyn gynted ag y bo modd ar ôl strôc. Yn ystod y weithred, mae meddyg arbenigol yn mewnosod tiwb â chawell wifren fechan i mewn i rydweli wrth ymyl y werddyr. Caiff wedyn ei dywys i fyny drwy'r corff ac i mewn i'r ymennydd. Unwaith y mae i mewn yn y bibell waed gywir, mae'r gawell yn cau am y dorchon ac yn cael gwared â hi - gan ar unwaith alluogi gwaed i lifo'n rhydd eto. Gall y claf yn aml fod yn effro drwy gydol y weithred gyfan, neu gellir ei pherfformio o dan anaesthetig cyffredinol.

Mae thrombectomi yn driniaeth amser-sensitif iawn - mater o funudau ac oriau. Po gyflymaf y bydd y weithred yn digwydd, mwyaf o feinwe'r ymennydd y gall y meddyg ei arbed. Mae hyn oherwydd am bob munud y bydd strôc heb driniaeth, mae 1.9 miliwn o gelloedd yn yr ymennydd yn marw. Gellir perfformio thrombectomi hyd at 24 awr ar ôl strôc, ond mae'n fwyaf effeithiol yn y chwe awr gyntaf³.

I'r 1 o bob 10 o gleifion strôc a all gael thrombectomi yng Nghymru (a amcangyfrifir sy'n 500 o gleifion strôc y flwyddyn⁴), gall y driniaeth hon wneud gwahaniaeth sy'n newid bywyd. Mae'n lleihau'n sylweddol y siawns of anabledau fel parlys, nam ar y golwg neu anawsterau cyfathrebu ar ôl strôc.

Mae'r driniaeth yn eithriadol o effeithiol. Dangosodd rhai treialon fod cleifion cymwys sy'n derbyn thrombectomi yn fwy tebygol o ddychwelyd i 'annibyniaeth weithredol' (neu fod â llai o broblemau ag anabled) o fewn tri mis o'u strôc, o'i gymharu â'r rheiny na chafodd thrombectomi⁵. Canfu eraill mai o gymharu â thriniaethau safonol, gwnaeth mwy o'r cleifion hynny a dderbyniodd thrombectomi adferiad niwrolegol llawn. Mewn un enghraifft, roedd gan 49% o gleifion a dderbyniodd thrombectomi ganlyniad da o'i gymharu â dim ond 13% a dderbyniodd driniaeth feddygol safonol yn unig⁶.

Pam mae arnom angen datblygu gwasanaethau thrombectomi yng Nghymru?



Mae'n arbed ymenyddiau. Mae thrombectomi yn driniaeth nerthol iawn ac mae'n lleihau anabledd yn sylweddol. Mae 39% o gleifion thrombectomi yn profi llai o anabledd ac mae 20% yn cyflawni annibyniaeth weithredol ar ôl y driniaeth. Byddai trin pawb sydd angen thrombectomi yng Nghymru yn golygu y byddai mwy o bobl yn annibynnol ar ôl eu strôc, ac yn byw â llai o anabledau fel parlys, nam ar y golwg ac anawsterau cyfathrebu.



Mae'n arbed arian. Mae thrombectomi yn eithriadol o gost-effeithiol, gan arbed £47,000 ar gyfartaledd i'r GIG dros bum mlynedd i bob claf⁷. Gellid ail-fuddsoddi'r arbedion hyn mewn gwasanaethau gofal iechyd.



Mae hyd yn oed yn arbed bywydau. Gall thrombectomi drin strociau difrifol a allai beri anabledau lluosog neu hyd yn oed marwolaeth.

“Cred Cymdeithas Ffisigwyr Strôc Cymru fod thrombectomi yn elfen hanfodol o wasanaethau strôc modern ac yn flaenoriaeth i ofal cleifion yng Nghymru. Rydym wedi'n hymrwymo i archwilio pob opsiwn i ddatblygu gwasanaethau 24/7 cynaliadwy i gleifion ym mhob rhanbarth.”

Cymdeithas Ffisigwyr Strôc Cymru





Gerald McMullen Astudiaeth Achos

Cafodd Gerald McMullen, landlord tafarn wedi ymddeol a gyrrwr 66 mlwydd oed, strôc gartref yng Nghaerdydd ym mis Hydref, 2020.

"Codais yn y bore ac roeddwn yn teimlo'n iawn," y mae Gerald yn dwyn i gof. "Roeddwn yn eistedd yn fy nghadair yn cael paned o de pan ofynnodd fy ngwraig Linda yn sydyn a oeddwn yn iawn. Dywedais, 'Ydw'. Fodd bynnag, fe sylwodd hi fod rhywbeth o'i le. Roedd hi'n ymddangos iddi hi fod fy mraich estynedig, yn gafael yn fy nghwpan, yn anhyblyg." Adnabu Linda symptomau FAST ac fe ffoniodd 999 yn syth.

Ar ôl cyrraedd Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, aed â Gerald am sgan. Canfuant dorchen fawr yn yr ymennydd, a adwaenir fel achludiad y rhydveli mawr, ac felly gwnaed thrombectomi.

Dywedodd Gerald, "Gwn fy mod wedi bod yn ffodus i gael thrombectomi ond y cyfan rwyf yn ei gofio o'r llawdriniaeth oedd y peiriant uwchben fy mhen. Fe es i gysgu, a'r peth nesaf rwyf yn ei gofio yw'r dyn yn dweud wrthyf: 'Dyna fo, rydych wedi gorffen.'"

Arhosodd Gerald ar y ward am ddwy noson. "Mae'r strôc wedi gadael gwaddol imi o fraich dde wan, ond rwyf yn cael y nerth yn honno yn ôl yn awr. Heb y thrombectomi, buaswn wedi bod mewn cyflwr llawer gwaeth."

Yn awr, gall Gerald chwarae golff eto a mwynhau bywyd gyda'i deulu. "Credaf fod thrombectomi yn fendigedig. Ewch amdano'n gyflym i gael gwared â'r dorchen. Mae'n dechnoleg ardderchog. Heb yr ymchwil y mae'r Gymdeithas Strôc wedi'i ariannu, efallai y byddai fy mywyd yn wahanol iawn."

Beth yw'r cyd-destun polisi yng Nghymru?

Darperir thrombectomi ar hyn o bryd gan ddau wahanol lwybr yng Nghymru. Ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, mae cleifion yn gallu cael at thrombectomi yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Ym mhob rhan arall o Gymru, mae cleifion yn gallu cael at wasanaethau a leolir yn Lloegr, a gomisiynwyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ran byrddau iechyd lleol Cymru. Nid yw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn comisiynu gwasanaethau thrombectomi ar gyfer Caerdydd. Gall cleifion fod yn addas ar gyfer thrombectomi hyd at 24 awr ar ôl strôc, yn dibynnu ar ffactorau clinigol.⁸

Gellir canfod y llwybr llawn i gleifion ar gyfer y rheiny sy'n cael at wasanaethau thrombectomi a gomisiynwyd ym Mholisi Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, "Mechanical Thrombectomy for the treatment of acute Ischaemic Stroke".

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ansawdd newydd ar gyfer Strôc ym mis Medi, 2021, gyda'r Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan, Aelod o'r Senedd, hefyd yn cyhoeddi "cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer strôc yng Nghymru i wthio ymlaen yr ymrwymadau niferus [y mae'r datganiad ansawdd] yn eu cynnwys"⁹.

Mae'r Datganiad Ansawdd yn amlinellu 20 o "Briodoleddau Ansawdd" ar gyfer gwasanaethau strôc yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i, "Mae mynediad cyflym i gadarnhau strôc a darparu ymyriadau, triniaethau a gofal yn seiliedig ar dystiolaeth yn y sefyllfa fwyaf priodol ar gael yn rheolaidd"¹⁰.

Caiff thrombectomi ei amlygu'n eglur yn y datganiad fel maes blaenoriaeth, ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill megis ail-ffurfweddu gwasanaethau strôc a lleihau amrywiadau mewn gofal ¹¹.

Mae'r Datganiad Ansawdd yn olynydd i Gynllun Cyflawni ar gyfer Strôc 2017-2020 Llywodraeth Cymru (yr ymestynnwyd ei rychwant oes oherwydd pandemig Covid-19). Datganodd y Cynllun Cyflawni ddymuniad i wella argaeledd thrombectomi, ond nododd gyfyngiadau ar staff, rhywbeth a gaiff ei archwilio'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn¹².

Mae'r Datganiad Ansawdd yn rhan gydrannol o ymagwedd ehangach gan Lywodraeth Cymru tuag at bolisi gofal heb ei drefnu, a amlinellwyd yn y llawlyfr polisi diweddar, "Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: 2021-2026". Mae Nod 4 (Ymateb cyflym os oes argyfwng corfforol neu argyfwng iechyd meddwl) yn datgan, "Dylai unigolion sy'n ddifrifol wael neu wedi'u hanafu'n ddifrifol neu sydd mewn argyfwng iechyd meddwl dderbyn yr ymateb cyflymaf a gorau yn unol â'u hangen clinigol – ac, os yw'n angenrheidiol, cânt eu cludo i'r lle cywir ar gyfer gofal gorffenedig i optimeiddio'u profiad a'u canlyniad"¹³. Mae llawer o'r blaenoriaethau o dan Nod 4 yn ymwneud â'r angen i gynyddu cyflymder amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghymru, sy'n hanfodol i alluogi cleifion i gael at thrombectomi o fewn y ffenestr amser ofynnol.

Daw'r Fframwaith Gofal Brys a Heb ei Drefnu o dan y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (NCF) ehangach, a gyhoeddwyd yn 2021. Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn amlinellu ymagwedd strategol ehangach, sy'n rhan gydrannol o'r cynllun cyfnod hir troswaol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, "Cymru Iachach", a gyhoeddwyd yn 2018.

Er gwaethaf cyhoeddi'r Datganiad Ansawdd ym mis Medi, 2021, ychydig iawn yn rhagor o wybodaeth sydd wedi bod am y manylion o fewn y cynllun cyflawni newydd ar gyfer strôc. Golyga hyn ein bod yn brin o'r manylion gofynnol ynglŷn â sut mae thrombectomi yn cydweddu â'r weledigaeth a gynhwysir o fewn y dogfennau strategaeth ehangach hyn, yr hyn yw'r disgwyliadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau thrombectomi fesul cam yng Nghymru, a sut yr eir i'r afael â'r heriau i ddatblygu'r gwasanaethau hyn.



Lefelau cyfredol o thrombectomi yng Nghymru


Er gwaethaf y ffaith yr amcangyfrifir fod yna 500 o bobl â'r potensial i fod yn gymwys ar gyfer thrombectomi yng Nghymru bob blwyddyn, mae'r nifer sydd ar hyn o bryd yn gallu cael at y driniaeth yn sylweddol llai na hyn.

Dim ond 33 o gleifion yng Nghymru a dderbyniodd thrombectomi yn 2020/21¹⁴. O'r rhain, derbyniodd 13 y driniaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, gyda'r 20 claf arall yn derbyn y driniaeth mewn canolfannau thrombectomi yn Lloegr.

Canolfan Thrombectomi	Cleifion thrombectomi Cymreig 2020/21
Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd	13
Ysbyty Southmead Hospital, Bryste	16
Canolfan Walton Centre, Lerpwl	4

Er gwaethaf y ffaith bod 10% o gleifion strôc yn ddichonol yn gymwys ar gyfer thrombectomi, golyga hyn mai dim ond 0.74% o gleifion yng Nghymru a dderbyniodd y driniaeth mewn gwirionedd yn 2020/21. O'i gymharu, y gyfradd gyfredol yn Lloegr yw 2.2%, ac yng Ngogledd Iwerddon mae'n 4.1%¹⁵. Mewn cenhedloedd heblaw'r DU, gall y ffigwr hwn fod yn sylweddol uwch (er bod rhai ond yn cofnodi'r ganran o gleifion strôc ischaemig sy'n derbyn thrombectomi).

% y cleifion strôc isgemig sy'n derbyn thrombectomi



*** Mae Iwerddon, Sweden, yr Almaen a'r Unol Daleithiau yn cofnodi eu cyfraddau thrombectomi fel nifer y thrombectomiâu ar gyfer cleifion strôc isgemig yn unig. Felly, mae ffigurau uchod 2020/21 Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru yn amcangyfrifon wedi'u cyfrifo, at ddibenion cymhariaeth ryngwladol yn unig. Nid oes modd cymharu data thrombectomi yr Alban ar hyn o bryd.

Hyd yn oed o fewn Cymru, mae yna amrywiad sylweddol yn faint o gleifion sy'n gallu cael at thrombectomi mewn gwahanol unedau strôc. Gan ddefnyddio ffigurau o'r Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Strôc Sentinel, gallwn weld i ba ysbytai y cafodd yr 20 claf a dderbyniodd thrombectomi yn Lloegr eu trosglwyddo yn ôl iddynt. Rhydd hyn syniad inni o le y daw atgyfeiriadau ar gyfer thrombectomi (er nad yw'n cynnwys unrhyw gleifion a drosglwyddwyd ar ôl thrombectomi yn Ysbyty Athrofaol Cymru). Dengys yr wybodaeth hon inni fod yna rai unedau strôc yng Nghymru lle nad atgyfeiriwyd yr un claf ar gyfer thrombectomi yn 2020/21.

Uned Strôc	Nifer y trosglwyddiadau thrombectomi
Ysbyty Treforys	5
Ysbyty Maelor Wrecsam	4
Ysbyty Brenhinol Gwent/Ysbyty Athrofaol y Faenor	4
Ysbyty Athrofaol Cymru*	2
Ysbyty Tywysoges Cymru	2
Ysbyty'r Tywysog Siarl	2
Ysbyty'r Tywysog Phillip	1
Ysbyty Bronglais	0
Glan Clwyd	0
Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru	0
Ysbyty Llwynhelyg	0
Ysbyty Gwynedd	0

*Yn ogystal â 2 drosglwyddiad i Ysbyty Southmead, gwnaeth Ysbyty Athrofaol Cymru 13 thrombectomi yn uniongyrchol nas cynhwysir yn y tabl hwn.

Dengys ystadegau a ddarparwyd gan Uned Gyflawni GIG Cymru nad atgyfeiriwyd yn 2021/22 yr un claf ar gyfer thrombectomi o Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru nac Ysbyty'r Tywysog Phillip, er nad yw'r ffigurau hyn yn derfynol²⁰.

Ar gyfer 2020/21, rhydd hyn gyfradd thrombectomi inni am bob bwrdd iechyd:

Health Board	Thrombectomy rate 20/21
Aneurin Bevan	0.51%
Betsi Cadwaladr	0.36%
Caerdydd a'r Fro	2.45%
Cwm Taf Morgannwg	0.49%
Hywel Dda	0.15%
Bae Abertawe	1.01%

Gan nad oes gan Bowys uned strôc, nid yw'n bosibl cynnwys ffigurau ar gyfer yr ardal hon. Caiff cleifion Powys eu cynnwys mewn ffigurau ar gyfer unedau strôc eraill yng Nghymru, yn ogystal ag yn Lloegr.

Dengys y ffigurau hyn fod Cymru ar hyn o bryd ymhell iawn o ddiwallu anghenion y 10% o gleifion strôc a all fod yn gymwys. Mae llawer o gleifion a allai elwa o thrombectomi yn methu â chael gfael ar y driniaeth hanfodol hon.

Darparodd Uned Gyflawni'r GIG ffigurau ar gyfer 2021/22 sy'n dynodi cynnydd yn nifer y thrombectomiau a wnaed ar gleifion yng Nghymru, gan gynyddu o 33 i 45²¹. Mae hwn yn gynydd i'w groesawu, er ei fod yn dal i fod ond yn rhanrif bychan o'r rheiny a allai elwa o'r driniaeth.

Rydym yn pryderu mai ond ychydig o gleifion, er bod yna drefniadau a gomisiynwyd ar waith â Chanolfan Walton yn Lerpwl ac Ysbyty Southmead ym Mryste, sy'n cael at thrombectomi yn y canolfannau hyn, ac mae yna amryw o ysbytai Cymru lle nad oes yr un claf yn cael at y driniaeth. Mae'r mynediad amrywiol hyn yn golygu perygl o greu loteri cod post ar gyfer thrombectomi, lle mae cleifion strôc mewn rhai ardaloedd yn llawer mwy tebygol o dderbyn y driniaeth na'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd eraill.

Pam mae cyn lleied o gleifion yng Nghymru'n gallu cael at thrombectomi?

Mae yna nifer o resymau wrth wraidd y gyfradd isel o thrombectomi yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prinder staff strôc arbenigol, yn cynnwys Niwro-radiolegyddion Ymyriadol;
- Oediadau mewn amseroedd cleifion strôc yn cyrraedd ysbytai;
- Heriau o ran trosglwyddo a 'delweddu' cleifion;
- Amseroedd agor cyfyngedig y gwasanaethau thrombectomi;
- Ymagwedd strategol genedlaethol ohiriedig tuag at strôc.

Bydd rhai o'r heriau hyn yn gofyn am ymagweddau cyfnod hir tuag at ddatblygu gwasanaethau a hyfforddi staff, ond mae yna hefyd gamau y gellir eu cymryd yn awr fydd yn golygu y byddai mwy o gleifion strôc yng Nghymru yn gallu cael at thrombectomi. Yr hyn sy'n allweddol i hyn yw cyhoeddi'r cynllun cyflawni newydd i weithredu'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc.

Prinder staff arbenigol ar gyfer strôc

Mae thrombectomi yn gofyn am dîm cyfan o staff arbenigol, o barafeddygon i nyrsys, fffisigwyr strôc, Niwro-radiolegyddion Ymyriadol, staff cymorth, anesthetyddion a radiograffyddion. Fodd bynnag, fel a ganfuwyd gan y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Strôc yn eu hymchwiliad yn 2019, mae prinderau staff yn bodoli ledled y llwybr strôc cyfan²².

Mae'r prinderau hyn yn ffactor mawr sy'n cyfrannu tuag at oediadau mewn triniaeth, gan arafu proses lle mae amser yn hanfodol. Maent hefyd yn arwain at gost bersonol enfawr i'r rheiny sy'n gweithio i gyflenwi thrombectomi, yn cynnwys sifftiau hwy nag arfer a bod ar alwad yn aml iawn.

Mae prinder Niwro-radiolegyddion Ymyriadol wedi'u hyfforddi yn cael effaith uniongyrchol ar argaeledd thrombectomi yng Nghymru. Mae Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR) yn galw'r prinder gwasanaethau Radioleg Ymyriadol 24/7 yn 'risg presennol sylweddol i ddiogelwch cleifion [fydd yn] cynyddu oni bai y cymerir camau brys i fynd i'r afael â'r diffygion yn y gweithlu'²³. Nid oes yna ffordd safonedig gyfredol o hyfforddi a recriwtio Niwro-radiolegyddion Ymyriadol, ac mae denu gweithwyr proffesiynol o dramor hefyd yn heriol.

Ar hyn o bryd, dim ond dau o Niwro-radiolegyddion Ymyriadol a gyflogir i ddarparu thrombectomi yng Nghymru, ac mae'r ddau yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd.

Mae yna brinderau ledled y Deyrnas Unedig gyfan, gyda 106 yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn Lloegr, a thraean ohonynt wedi'u lleoli yn Llundain. Gallai mynediad 24/7 i bawb at thrombectomi olygu cynnydd sylweddol yn y nifer a leolir yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaethau Lloegr a ddefnyddir gan gleifion o Gymru.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a Choleg Brenhinol y Radiolegwyr yn datblygu dull cymeradwyo i ganiatáu i arbenigwyr eraill hyfforddi i gyflawni thrombectomi yn y Deyrnas Unedig²⁴. Er y gall hyn helpu i gynyddu cynhwysedd, ni all ddatrys y prinderau ehangach yn y gweithlu strôc sy'n rhychwantu'r llwybr. Mae'r gymuned Niwro-radiolegyddion Ymyriadol yn egluro ei bod yn 'esgeuluso'r heriau mawr, ac mae modd dadlau, yr heriau llawer mwy drwy'r system, fydd yn parhau i ohirio ehangu gwasanaethau Technolegydd Meddygol, ni waeth faint yw niferoedd y gweithredwyr', oherwydd bod y GIG 'yn cael ei dan-gyllido'n ddybryd' mewn Canolfannau Strôc Aciwt (ASC), Ymddiriedolaethau Ambiwylansys a Chanolfannau Strôc Cynhwysfawr (CSC)²⁵.

Mae prinderau yn y gweithlu yn peryglu diogelwch cleifion ac yn atal canolfannau rhag cynyddu modd o gael at thrombectomi. Mae cleifion strôc yn haeddu cael at driniaethau y mae arnynt eu hangen, a gofal diogel, o ansawdd uchel. Ac mae ein gweithlu strôc yn haeddu gwasanaethau sydd wedi'u staffio'n llawn i liniaru pwysau gormodol ac i gynorthwyo'u llesiant.

Mae mynd i'r afael â'r prinder Niwro-radiolegyddion Ymyriadol yn allweddol i alluogi cleifion strôc yng Nghymru i gael at thrombectomi.

Mae llawer o'r datrysiadau i'r prinder Niwro-radiolegyddion Ymyriadol, megis dull cymeradwyo, yn ddatrysiadau na ellir rhoi sylw iddynt ar lefel Cymru, ac maent angen ymagwedd drwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Fodd bynnag, erys angen i Addysg a Gwella Iechyd Cymru fodelu anghenion gweithlu strôc y dyfodol, yn cynnwys Niwro-radiolegyddion Ymyriadol, a sefydlu strategaeth ar gyfer hyfforddi, recriwtio a chadw gafael ar y gweithlu strôc yng Nghymru, fel a argymhellir gan y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Strôc²⁶. Bydd cynyddu staff a chanddynt fedrau o ran strôc yn ein gwasanaethau nad ydynt yn cyflenwi thrombectomi yn uniongyrchol hefyd fantais, gan ganiatáu taith gyflymach drwy'r llwybr fydd yn galluogi mwy o gleifion i gael at thrombectomi.

Dylai gwasanaethau strôc yng Nghymru hefyd weithio mewn cydweithrediad â gwasanaethau thrombectomi yn Lloegr i ddatblygu ymagweddau tuag at hyfforddiant drwy fodel rhwydweithio i gynyddu nifer y staff medrus mewn thrombectomi yng Nghymru.

Argymhellion:

- Dylai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a Choleg Brenhinol y Radiolegwyr gymeradwyo dull cymeradwyo thrombectomi sy'n sicrhau cynyddu cynhwysedd thrombectomi yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru weithredu argymhelliad adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Strôc i sefydlu strategaeth ar gyfer hyfforddi, recriwtio a chadw gafael ar staff medrus mewn strôc yng Nghymru, yn cynnwys Niwro-radiolegyddion Ymyriadol.

Oediadau mewn cleifion strôc yn cyrraedd ysbytai

Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghymru, yn enwedig y rheiny yn y categori oren (sy'n cynnwys strôc), wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o ganlyniad i bwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Yn yr ystadegau diweddaraf, arhosodd 82% o alwadau categori oren am dros 30 munud am ymateb, ac arhosodd 67% am dros awr²⁷.



Mae'r Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Strôc Sentinel yn mesur yr amser y mae'n ei gymryd rhwng dechreuad strôc a phan fo claf yn cyrraedd ysbyty. Dengys y ffigurau hyn fod cleifion yn cyrraedd ysbyty yn hwyrach nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig²⁸.

Amser cyfartalog rhwng dechreuad strôc a chyrraedd, Hydref-Rhagfyr 2021 (Oriau:Munudau)

Lloegr

3.50



Gogledd Iwerddon

3.46



Cymru

6.41



Gall oediadau cyn cyrraedd ysbyty gael effaith uniongyrchol ar yr opsiynau triniaeth sydd ar gael i gleifion strôc. Mae thrombolysis (cyffuriau chwalu tolchenni) a thrombectomi yn driniaethau â chyfyngiad amser. Er y gellir darparu thrombectomi hyd at 24 awr ar ôl strôc, mae'r driniaeth yn fwyaf effeithiol yn y 6 awr gyntaf.²⁹

Bydd lleihau oediadau cyn cyrraedd ysbyty yn golygu y bydd mwy o gleifion yn cyrraedd o fewn y ffenestr pan fo thrombectomi yn fwyaf buddiol, gan uchafu'r niferoedd sy'n gallu cael y driniaeth, yn ogystal â'r effaith a gaiff.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i roi sylw i'r argyfwng cyfredol mewn amseroedd ymateb ambiwlansys. Dywedodd Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wrthym fod yr argyfwng cyfredol yn cael ei beri gan broblemau systemig o fewn y gwasanaeth iechyd, yn fwyaf nodedig oediadau mewn rhyddhau cleifion gan beri ôl-groniad mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, gan orfodi ambiwlansys i aros i ddadlwytho cleifion a lleihau nifer yr ambiwlansys sydd ar gael i ateb galwadau.

Canfu adolygiad gan Arolygiaeth Iechyd Cymru fod yna "rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, 32,699 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi ledled Cymru, lle roedd oediadau trosglwyddo yn para hwy na 60 munud."³⁰

Dywedodd cleifion strôc a'u teuluoedd wrthym am ddiffyg gwybodaeth gan y gwasanaeth ambiwlans, yn cynnwys na wnaeth neb ddweud wrthynt am ba hyd y byddai oediad cyn i ambiwlans gyrraedd. Dywedodd y rheiny sy'n gwneud eu ffordd eu hunain i ysbyty wrthym am arosiadau maith yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn hytrach na bod strôc yn cael ei thrin fel blaenoriaeth.

Dylai cleifion strôc ffonio 999 yn y lle cyntaf bob amser. Rydym yn bryderus iawn y gellir gofyn ar hyn o bryd i gleifion yng Nghymru a allant wneud eu ffordd eu hunain i ysbyty. Fodd bynnag, cydnabyddwn mai hyn ar hyn o bryd yw'r penderfyniad cywir mewn amgylchiadau eithriadol, er y dylid ond ei wneud ar gyngor y gwasanaeth ambiwlans. Dylai'r gwasanaeth ambiwlans sicrhau lle bo hyn yn digwydd bod cleifion yn cael gwybodaeth gywir am ymhle y mae'u huned strôc agosaf a bod yr uned strôc yn cael ei hysbysu o flaen llawn yn yr un ffordd â phetai claf yn cyrraedd mewn ambiwlans.

Gellir gwaethygu oediadau hefyd gan gleifion strôc yn oedi cyn ffonio am ambiwlans pan fo symptomau cychwynnol strôc yn taro. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru weithredu i godi ymwybyddiaeth o'r symptomau strôc drwy ail-gynnal negeseuon ymgyrch FAST yn flynyddol.

Argymhellion:

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a byrddau iechyd sicrhau bod adnoddau a gynlluniwyd ar gyfer gwasanaethau brys yn ddigonol i ateb y galw disgwylidig ac i fonitro hyn yn barhaus.
- Dylai gwasanaethau strôc sicrhau gwell llwybrau a chyfathrebu mewn ysbyty rhwng y tîm ambiwlans a thimau aciwt i leihau aros mewn Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu'r tu allan i ysbytai mewn ambiwlansys. Mae angen i ysbytai gael eu hysbysu o flaen llaw gan staff ambiwlans pa bryd y bydd cleifion sy'n arddangos symptomau strôc yn cyrraedd ac sydd â'r cynhwysedd i'w derbyn mewn unedau strôc.
- Dylid ond gofyn i gleifion wneud eu ffordd eu hunain i ysbyty mewn amgylchiadau eithriadol. Lle y gofynnir i unigolion wneud eu ffordd eu hunain i ysbyty, dylid darparu arweiniad eglur ynglŷn ag i le y dylent fynd fel bod cleifion yn ymwybodol nad yw eu huned strôc agosaf bob amser yn gyfystyr â'u hysbyty agosaf.
- Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal gweithgaredd i gynyddu ymwybyddiaeth o neges FAST yn flynyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o symptomau strôc a'r angen i ffonio 999.



Gareth Hale Astudiaeth Achos

Cafodd Gareth Hale, 66 mlwydd oed o Basaleg, Casnewydd, strôc ym mis Ebrill, 2021. Llewygodd yng ngardd ffrynt ei gartref ac fe'i canfuwyd gan ei gymydog ar unwaith a ffoniodd 999.

Roedd yna oediad o ddwy awr i gael y cyn-athro Saesneg i'r ysbyty, ac felly collodd y ffenestr gyfle i gael ei thromboleiddio neu i gael thrombectomi.

Dywedodd Lisa Hale, merch Gareth: "Cyrhaeddodd dad Ysbyty Athrofaol y Faenor am 7.30yh gyda'r nos, sy'n golygu bod yr uned strôc yng Nghaerdydd, Ysbyty'r Mynydd Bychan, lle y gallai thrombectomi fod wedi'i wneud, ynghau. Mae'n wirioneddol loteri cod post ac amser ynglŷn ag a allwch gael at thrombectomi. Petai fy nhad wedi cael ei strôc ychydig oriau ynghynt, gallai pethau fod wedi bod yn wahanol, ac nid felly y dylai hi fod o gwbl."

Mae Gareth, a oedd yn rheoli'i fusnes addysgu Saesneg ar-lein ei hun, yn awr wedi colli'i holl allu cyfathrebu ysgrifenedig a llafar, ni all ddefnyddio'i fraich dde na cherdded yn ddigymorth.

Dywedodd Lisa, "I rywun oedd yn hoffi cyfathrebu, ieithoedd a chanu, ni allwn hyd yn oed ddisgrifio'r trawma y mae'n ei brofi ar hyn o bryd. Mae'i fusnes, ei hobiau a'i fywyd fel roedd ef yn gwybod amdanynt yn awr wedi darfod. Y noson honno, bu bron inni golli Dad. Fe lwyddodd i ddod drosti, serch hynny. Fodd bynnag, mae'r hyn sydd ganddo'n weddill yn ddychrynlyd. Mae fel petai wedi'i drapio yn ei gorff ei hun."

Heriau o ran trosglwyddo a delweddu cleifion

Comisiynwyd thrombectomi yn swyddogol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn 2019, gyda chytundeb ar niferoedd dichonol yn cael ei wneud â'r canolfannau yn Lloegr fyddai'n darparu'r driniaeth. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n derbyn y driniaeth wedi parhau'n is na'r hyn a ragwelwyd yn ystod y broses gomisiynu gychwynnol.

Edrychwyd ar hyn yn fanwl gan y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Strôc yn ystod eu hymchwiliad i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc. Awgrymodd tystiolaeth a roddwyd i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc ddau rwystr allweddol a oedd wedi atal cleifion strôc rhag gallu cael at y driniaeth yn y niferoedd a ragwelwyd yn wreiddiol:

- Problemau wrth drosglwyddo delweddu rhwng systemau GIG Cymru a Lloegr;
- Cytundeb â'r gwasanaeth ambiwlans ynglŷn â dychwelyd cleifion.

Dywedodd tystiolaeth a roddwyd i'r Grŵp Trawsbleidiol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru:

"Mae yna ddwy broblem benodol wedi bod wrth weithredu [y contract thrombectomi â Bryste]. Mae'r broblem gyntaf yn ymwneud â dychwelyd ac mae yna oediadau wedi bod â Gwasanaeth Ambiwllans Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Ambiwllans Cymru wrth roi hynny ar waith, ac mae Bryste wedi gwneud gofyniad penodol y gallwn ddychwelyd ein cleifion o fewn chwe awr."³¹

Ein dealltwriaeth ni yw bod sgysiau'n parhau ynglŷn â chael gwared â'r rhwystrau hyn, ond bod heriau'n parhau. Dywedodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wrthym fod yna wahaniaethau mewn safonau Technoleg Gwybodaeth rhwng systemau iechyd Lloegr a Chymru, gan olygu nad yw systemau delweddu a ddefnyddir gan Loegr yn cydymffurfio â safonau Cymru. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd seiberddiogelwch mewn systemau iechyd, dylai canfod ymagweddau i oresgyn y rhwystr hwn fod yn flaenoriaeth, o ystyried y pwysigrwydd o sicrhau modd cyflym o gael at thrombectomi.

Mae dychwelyd cleifion hefyd wedi rhoi problemau. Mae sicrhau llif priodol o gleifion drwy'r system iechyd wedi bod yn her y rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddi i'r gwasanaeth iechyd yn y blynyddoedd diwethaf, a dyma'r achos dros thrombectomi. Mae ar Ysbyty Southmead angen sicrhau bod cleifion Cymru yn cael eu dychwelyd i'w hunedau strôc lleol ar ôl triniaeth, ond mae cael cytundeb ar hyn wedi bod yn her sydd eto i'w datrys, er gwaethaf sgysiau dros amryw o flynyddoedd.

Er ein bod yn cydnabod bod y ddwy her hyn yn ddiffuant, rydym yn pryderu oherwydd y dylent fod yn heriau y dylid eu hunioni gydag ymdrechion cydunol gan y rheiny sy'n cymryd rhan. Rhoddwyd tystiolaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol yn amlygu'r problemau hyn ym mis Chwefror, 2020, ac eto mae'r ddwy broblem eto i'w datrys. Tra bod y rhwystrau hyn yn parhau, mae cleifion strôc yn colli triniaeth hanfodol.

Argymhellion:

- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i sicrhau bod pob uned strôc a darparwyr thrombectomi Lloegr yn gallu cael at feddalwedd delweddu priodol i rannu delweddau, fel y bo'n ofynnol.
- Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru ac Ysbyty Southmead ddod i drefniadau ffurfiol ar gyfer dychwelyd cleifion Cymru ar ôl thrombectomi gan wasanaethau Lloegr cyn gynted ag y bo modd.

Amseroedd agor cyfyngedig gwasanaethau thrombectomi

Ychydig iawn o wasanaethau thrombectomi sydd yna yng Nghymru sydd ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos. Ar hyn o bryd, mae yna ond 6 chanolfan thrombectomi yn darparu'r gwasanaeth 24/7, ac maent i gyd yn Lloegr. Amseroedd agor cyfredol y prif ganolfannau thrombectomi a ddefnyddir gan gleifion Cymru yw:

- Prifysgol Athrofaol Cymru: 9yb – 5yp, 5 niwrnod yr wythnos.
- Ysbyty Southmead, Bryste: 8yb – 8yh, 7 niwrnod yr wythnos.
- Canolfan Walton, Lerpwl: 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos.

Golyga hyn fod unrhyw gleifion o Gymru sydd angen thrombectomi y tu allan i'r oriau hyn yn debygol o golli'r driniaeth hanfodol hon. Mae gan y gwasanaeth ym Mryste hefyd derfyn amser, ar ôl pryd ni fydd hi mwyach yn ymarferol trosglwyddo claf i dderbyn thrombectomi cyn bod y gwasanaeth yn cau am y diwrnod. Fe'n hysbyswyd fod Bryste i fod i ddechrau ar thrombectomi 24/7, fydd ar gael yn yr hydref, 2022.

Mae'r prinder Niwro-radiolegyddion Ymyriadol sy'n gallu darparu'r driniaeth, fel a amlinellwyd eisoes, yn un o'r rhwystrau allweddol rhag ymestyn y driniaeth, gan ein bod yn cydnabod nad oes ffon hud i ddatrys hyn yn y cyfnod byr.

Pan fo gwasanaethau'n cael eu hymestyn a'u datblygu dros y blynyddoedd i ddod, dylid rhoi ystyriaeth i'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio staff, megis modelau rhwydwaith, i sicrhau ein bod yn gallu cael gwasanaethau 24/7 yn hygyrch i bob claf yng Nghymru mor gyflym ag y bo modd.

Yn y pen draw, yn y cyfnod hwy, yr allwedd i welliannau yw cael mwy o Niwro-radiolegyddion Ymyriadol yn gweithio mewn gwasanaethau thrombectomi yng Nghymru, a gweithredu strategaethau i gynyddu darpariaeth. Yn y cyfnod byrrach, mae angen gweithredu i wella llwybrau, i gael gwared â rhwystrau ymarferol a chynyddu mynediad ar gyfer cleifion.

Argymhellion:

- Dylai ymagweddau rhwydweithio'r dyfodol tuag at wasanaethau strôc roi blaenoriaeth i ymestyn oriau argaeledd gwasanaethau thrombectomi.

Ymagwedd strategol genedlaethol ohiriedig tuag at strôc

Disodlwyd hen Gynllun Cyflawni ar gyfer Strôc Llywodraeth Cymru gan y Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc. Roedd y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Strôc yn feirniadol o'r diffyg canlyniadau manwl y manylwyd arnynt yn y Cynllun Cyflawni blaenorol, ac argymhellodd fod hyn yn rhan ganolog o gynllun amnewid. Cyhoeddwyd y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r Datganiad Ansawdd ym mis Medi, 2021.

Mae'n rhaid i ganlyniadau a graddfeydd amser manwl fod yn ganolog i ddatblygu'r cynllun newydd. Mewn trafodaethau a gawsom â'r Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc, y Dr Shakeel Ahmad, dywedwyd wrthym y bydd canlyniadau yn flaenoriaeth, rhywbeth rydym yn ei groesawu'n galonnog.

Fodd bynnag, er mis Medi, 2021, ychydig iawn o fanylion rydym wedi'u gweld ynglŷn â'r hyn y bydd cynllun newydd yn ei gynnwys, ac nid ydym yn ymwybodol o ba bryd y cwblheir hyn. Fe'n hysbyswyd fod y drafftio i fod i ddigwydd yn o fuan.

Mae angen gwneud cynnydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol i gwblhau'r cynllun newydd. Mae hi'n ofynnol yn barod i fyrrdau iechyd gyflwyno'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru³², ac mae diffyg sicrwydd ar y cyfeiriad strategol ar gyfer strôc yn golygu y gall fod cyfleoedd ar gyfer cynnwys datblygu gwasanaethau strôc o fewn y cynlluniau hyn wedi'u colli.

Mae Byrddau Iechyd hefyd mewn trafodaethau am eu cynlluniau'u hunain ar gyfer symud tuag at wasanaethau ar gyfer strôc hyperaciwt, rhywbeth rydym yn ei gefnogi. Mae Bwrdd Iechyd Bae Abertawe eisoes wedi ymgynghori ar eu cynlluniau'u hunain i gyflwyno HASU yn Nhreforys³³. Mae angen arweiniad cenedlaethol eglur i roi eglurder ar ddisgwyliadau ynghylch graddfeydd amser a disgwyliadau gan Lywodraeth Cymru, a ddylai gynnwys cyfeiriad ar ymagweddau strategol cenedlaethol y dyfodol tuag at ddatblygu gwasanaethau thrombectomi yng Nghymru. Ni ddisgwyliwn i bob uned strôc yng Nghymru fod yn ganolfan thrombectomi, ond dylai'r cynllun newydd amlinellu amcanion strategol ar gyfer thrombectomi yng Nghymru.

Dylai'r cynllun hefyd ganolbwyntio ar leihau'r lefel uchel o amrywiadau rhanbarthol mewn cyfraddau cael at thrombectomi, fel bod pob claf yn gallu cael at y driniaeth, ni waeth ymhle yng Nghymru y mae'n byw.

Mae'r Datganiad Ansawdd yn eglur ei fod yn rhagweld ymagwedd rhwydwaith tuag at wasanaethau strôc. Dylai'r cynllun cyflawni hwn fanylu ar sut mae hyn yn ymddangos ar gyfer thrombectomi, gan symud tuag at fodel rhwydwaith sy'n cynnwys darparwyr gwasanaethau yn Lloegr, fel y gellir rhannu arbenigedd ac y gellir arddangos ymarfer gorau. Byddai hyn yn helpu i ddatblygu trefniadau comisiynu cyfredol, a ddisgrifiwyd inni fel "trwsogl" drwy symud tuag at ymagwedd sy'n canolbwyntio at ddatrysiad.

Mae ar Gymru angen sefydlu ymagwedd tuag at strôc lle mae pawb yr effeithir arno gan strôc yn cael ei drosglwyddo'n gyflym i'r ysbyty cywir, i dderbyn y driniaeth gywir. Dylai llwybrau fod yn eglur, syml ac yn cynorthwyo clinigwyr i gael cleifion o ddrws ffrynt yr ysbyty, cael eu sganio, eu hasesu a (lle y bo'n gymwys) wedi'u thromboleiddio ac yn barod am thrombectomi mor gyflym ag y bo modd. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle gorau i bob claf wneud adferiad da, tra ei fod yn cael ei gynorthwyo gan wasanaethau adsefydlu a bywyd ar ôl strôc.

Fodd bynnag, heb gynllun eglur ar waith, ni ellir cyflawni hyn, ac rydym yn creu sefyllfa lle mae risg bod cleifion yn parhau i gollu triniaeth hanfodol.

Argymhellion:

- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r cynllun cyflawni wedi'i ddiweddarau newydd i gynorthwyo'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- Dylai'r cynllun cyflawni newydd roi disgwyliadau, graddfeydd amser a chanlyniadau eglur ar gyfer gwasanaethau strôc yng Nghymru ledled y llwybr strôc, yn cynnwys thrombectomi, i roi arweiniad cenedlaethol eglur o ran datblygu gwasanaethau thrombectomi'r dyfodol.
- Dylai ymagweddau rhwydwaith newydd tuag at wasanaethau strôc edrych ar thrombectomi, a chynnwys gwasanaethau thrombectomi yn Lloegr i rannu arbenigedd ac i ddatblygu ymagweddau hyfforddi ar gyfer staff thrombectomi.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun cyflawni wedi'i ddiweddarau newydd i ategu'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- Dylai'r cynllun cyflawni newydd roi disgwyliadau, graddfeydd amser a chanlyniadau eglur ar gyfer gwasanaethau strôc yng Nghymru ledled y llwybr strôc, yn cynnwys thrombectomi, i roi arweiniad cenedlaethol eglur o ran datblygu gwasanaethau thrombectomi'r dyfodol.
- Dylai Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru weithredu argymhelliad adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Strôc i sefydlu strategaeth ar gyfer hyfforddi, recriwtio a chadw gafael ar staff strôc medrus yng Nghymru, yn cynnwys Niwro-radiologyddion Ymyriadol.
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a byrddau iechyd sicrhau bod adnoddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gwasanaethau brys yn ddigonol i ddiwallu galw disgwylidig, a monitro hyn yn barhaus.
- Dylai ymagweddu rhwydwaith newydd tuag at wasanaethau strôc edrych ar thrombectomi, a chynnwys gwasanaethau thrombectomi yn Lloegr i rannu arbenigedd ac i ddatblygu ymagweddu hyfforddi ar gyfer staff thrombectomi.
- Dylai ymagweddu rhwydwaith y dyfodol tuag at wasanaethau strôc roi blaenoriaeth i ymestyn oriau argaeledd gwasanaethau thrombectomi.

Dylai Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Ambiwylans Cymru:

- Dylai gwasanaethau strôc sicrhau gwell llwybrau a chyfathrebu mewn ysbytai rhwng timau ambiwlans a thimau aciwt i leihau aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys neu'r tu allan i ysbytai mewn ambiwlansys. Mae angen i ysbytai gael eu hysbysu o flaen llaw gan staff ambiwlans am gleifion yn cyrraedd sy'n dangos symptomau strôc a chael y cynhwysedd i'w derbyn i unedau strôc.
- Dylid ond gofyn i gleifion wneud eu ffordd eu hunain i ysbyty mewn amgylchiadau eithriadol. Lle y gofynnir i unigolion wneud eu ffordd eu hunain i ysbyty, dylid darparu arweiniad eglur ynglŷn ag i le y dylent fynd, fel bod cleifion yn ymwybodol nad yw eu huned strôc agosaf bob amser yn gyfystyr â'u hysbyty agosaf.

Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru:

- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i sicrhau bod pob uned strôc a darparwyr thrombectomi yn Lloegr yn gallu cael at feddalwedd delweddu briodol i rannu delweddu, fel y bo'r gofyn.
- Dylai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Ysbyty Southmead wneud trefniadau ffurfiol ar gyfer dychwelyd cleifion o Gymru ar ôl thrombectomi o wasanaethau Lloegr cyn gynted ag y bo modd.

Argymhellion eraill:

- Dylai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a Choleg Brenhinol y Radiolegwyr gymeradwyo dull cymeradwyo thrombectomi sy'n sicrhau cynyddu cynhwysedd thrombectomi yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal gweithgaredd i gynyddu ymwybyddiaeth o neges FAST yn flynyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o symptomau strôc a'r angen i ffonio 999.

Nodiadau ar y Diwedd

1. Rhwydwaith Gwyddor Iechyd Academaidd Rhydychen, Mechanical thrombectomy for ischaemic stroke: an implementation guide for the UK. Ar gael: <https://www.oxfordahsn.org/wp-content/uploads/2022/02/Mechanical-Thrombectomy-for-Ischaemic-Stroke-February-2022.pdf>
2. Cymdeithas Strôc, Current, future and avoidable costs of stroke in the UK, Ionawr 2018. Ar gael: https://www.stroke.org.uk/sites/default/files/costs_of_stroke_in_the_uk_economic_case_interventions_that_work.pdf
3. White, P.M et al. Cymdeithas Ffisigwyr Strôc Prydain, Standards for providing safe acute ischaemic stroke thrombectomy services, Rhagfyr 2016. Ar gael: [https://www.clinicalradiologyonline.net/article/S0009-9260\(16\)30455-X/fulltext](https://www.clinicalradiologyonline.net/article/S0009-9260(16)30455-X/fulltext)
4. Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Specialised Services Commissioning Policy: CP168 Mechanical Thrombectomy for the treatment of acute Ischaemic Stroke, Mawrth 2022. Ar gael: <https://whssc.nhs.wales/commissioning/whssc-policies/neurosciences/mechanical-thrombectomy-for-the-treatment-of-acute-ischaemic-stroke-commissioning-policy-cp168-march-2022/>
5. Berkhemer, OA, Fransen, PSS et al, New England Journal of Medicine, A Randomized Trial of Intraarterial Treatment for Acute Ischemic Stroke, 2015. Ar gael: <http://www.nejm.org/doi/full/10.1056/NEJMoa1411587#t=article>
6. PRWeb, DAWN trial results demonstrate a 73% reduction in disability in stroke patients treated up to 24 hours, 16 Mai 2017. Ar gael: <http://www.prweb.com/releases/2017/05/prweb14339427.htm>
7. Cymdeithas Strôc, Current, Future and Avoidable Costs of Stroke in the UK, Mai 2018. Ar gael: https://www.stroke.org.uk/sites/default/files/costs_of_stroke_in_the_uk_summary_report_0.pdf
8. Llywodraeth Cymru, Written Statement: Quality Statement for Stroke, 22 Medi 2021. Ar gael: <https://gov.wales/written-statement-quality-statement-stroke>
9. Llywodraeth Cymru, Written Statement: Quality Statement for Stroke, 22 Medi 2021. Ar gael: <https://gov.wales/written-statement-quality-statement-stroke>
10. Ibid.
11. Ibid.
12. Llywodraeth Cymru, Stroke Delivery Plan 2017-2020, Chwefror 2017. Ar gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/stroke-delivery-plan-2017-to-2020.pdf>
13. Llywodraeth Cymru, Right care, right place, first time Six Goals for Urgent and Emergency Care A policy handbook 2021–2026, 4 Chwefror 2022. Ar gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-02/six-goals-for-urgent-and-emergency-care.pdf>
14. Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Strôc Sentinel, SSNAP Annual Portfolio for April 2020-March 2021 admissions and discharges: National Results. Ar gael: <https://www.strokeaudit.org/Documents/National/Clinical/Apr2020Mar2021/Apr2020Mar2021-AnnualResultsPortfolio.aspx>

15. Ibid. Mae cyfanswm Cymru yn cynnwys y rhai a gafodd thrombectomi mewn ysbyty yn Lloegr ond a dderbyniwyd yn wreiddiol i ysbyty yng Nghymru. Mae'r cleifion hyn wedyn yn cael eu tynnu o gyfanswm Lloegr, felly nid ydynt yn cael eu cyfrif ddwywaith.
16. HSE, National thrombectomy service annual report 2020. Ar gael: <https://www.hse.ie/eng/about/who/cspd/ncps/stroke/resources/national-thrombectomy-service-2020-annual-report.pdf>
17. Ullberg, T et al. Taith Llawfeddygaeth Niwro Ymyrrol, Endovascular thrombectomy for anterior circulation stroke beyond 6 hours of onset in Sweden 2015 to 2020: rates and outcomes in a nationwide register-based study, 17 Mawrth 2022. Ar gael: <https://jn.is.bmj.com/content/early/2022/03/16/neurintsurg-2022-018670>
18. Rouchaud, A., Aggour, M., Ciceri, E. et al. Niwroradiolog Glinigol, A European Perspective on the German System for Thrombectomy in Stroke Patients, 2021. Ar gael: <https://doi.org/10.1007/s00062-021-00999-2>
19. Rinaldo, L et al. Strôc, Racial and Ethnic Disparities in the Utilization of Thrombectomy for Acute Stroke, Medi 2019. Ar gael: <https://doi.org/10.1161/STROKEAHA.118.024651>
20. Darparwyd y ffigurau gan Uned Gyflawni GIG Cymru, casglwyd o ddata'r SSNAP.
21. Darparwyd y ffigurau gan Uned Gyflawni GIG Cymru, casglwyd o ddata'r SSNAP.
22. Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Strôc, The Future of Stroke Care in Wales: Report of the inquiry into the implementation of the Welsh Government's Stroke Delivery Plan, Mawrth 2020. Ar gael: <https://business.senedd.wales/documents/s100374/Report%20of%20the%20inquiry%20into%20the%20implementation%20of%20the%20Welsh%20Government's%20Stroke%20Delivery%20Plan.pdf>
23. Coleg Brenhinol Radiolegwyr, The UK workforce annual census 2020 report, 2020. Ar gael: https://www.rcr.ac.uk/system/files/publication/field_publication_files/clinical-radiology-uk-workforce-census-2020-report.pdf
24. Coleg Brenhinol Radiolegwyr, Mechanical thrombectomy for ischaemic stroke, Medi 2020. Ar gael: <https://www.rcr.ac.uk/clinical-radiology/being-consultant/mechanical-thrombectomy-ischaemic-stroke>
25. R Lenthall et al. Clinical Radiology, Current status of the credential "mechanical thrombectomy for acute ischaemic stroke" sponsored by the Royal College of Radiologists. What factors are preventing approval of training for non-radiologists to perform MT in the UK?, 22 Ebrill, 2022. Ar gael: [https://www.clinicalradiologyonline.net/article/S0009-9260\(22\)00171-4/fulltext](https://www.clinicalradiologyonline.net/article/S0009-9260(22)00171-4/fulltext)
26. Dyfodol Gofal Strôc yng Nghymru
27. StatsCymru, Emergency responses: minute-by-minute performance for amber calls, by Local Health Board and month. Ar gael: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Performance/Ambulance-Services/emergencyresponsesminutebyminuteperformanceambercalls-by-localhealthboard-month>

28. Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Strôc Sentinel, SSNAP Portfolio for October - December 2021 admissions and discharges – Country Results Portfolio. Ar gael: <https://www.strokeaudit.org/Documents/National/Clinical/OctDec2021/OctDec2021-CountryResultsPortfolio.aspx>
29. Arolygiaeth Iechyd Cymru, Welsh Ambulance Services NHS Trust Review of Patient Safety, Privacy, Dignity and Experience whilst Waiting in Ambulances during Delayed Handover, Medi 2020. Ar gael: https://content.govdelivery.com/attachments/UKWALES_HIW/2021/10/05/file_attachments/1957116/20210930%20-%20WAST%20Review%20Handover%20Delay%20-%20Final%20ENG.pdf
30. Arolygiaeth Iechyd Cymru, Welsh Ambulance Services NHS Trust Review of Patient Safety, Privacy, Dignity and Experience whilst Waiting in Ambulances during Delayed Handover, Medi 2020. Ar gael: https://content.govdelivery.com/attachments/UKWALES_HIW/2021/10/05/file_attachments/1957116/20210930%20-%20WAST%20Review%20Handover%20Delay%20-%20Final%20ENG.pdf
31. Dyfodol Gofal Strôc yng Nghymru
32. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Changing for the Future, Gorffennaf 2021. Ar gael: <https://changingforthefuture.uk.engagementhq.com/the-case-for-change>
33. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Changing for the Future, Gorffennaf 2021. Ar gael: <https://changingforthefuture.uk.engagementhq.com/the-case-for-change>

Pan fydd strôc yn taro, mae rhan o'ch ymennydd yn cau i lawr. A hefyd mae rhan ohonoch chi. Mae bywyd yn newid ar unwaith ac mae adferiad yn anodd. Ond gall yr ymennydd addasu. Dim ond gyda dewrder a phenderfyniad y gymuned strôc y mae ein cefnogaeth arbenigol, ein hymchwil a'n hymgyrch yn bosibl. Gyda mwy o roddion a chefnogaeth gennych chi, gallwn ni ailadeiladu hyd yn oed mwy o fywydau.

Cyfrannwch neu darganfyddwch mwy ar stroke.org.uk

Ailadeiladu bywydau ar ôl strôc

Cymdeithas

Strôc | Stroke
Association

© Cymdeithas Strôc 2022

Mae'r Gymdeithas Strôc wedi'i chofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif 211015) ac yn yr Alban (SC037789). Mae wedi'i chofrestru hefyd yng Ynys Manaw (Rhif 945) a Jersey (Rhif 221) a gweithredu fel elusen yng Ngogledd Iwerddon.

Act FAST

Mae strôc yn taro bob pum munud yn y DU. Gall ddigwydd i unrhyw un, o unrhyw oedran, ar unrhyw adeg. Mae'n hanfodol gwybod sut i adnabod arwyddion strôc ynoch chi'ch hun neu rywun arall.

Mae strôc yn argyfwng meddygol. Gall y prawf FAST eich helpu adnabod yr arwyddion mwyaf cyffredin.



Gwendid wyneb:

A all y person wenu? A yw eu ceg neu eu llygad wedi disgyn?



Gwendid braich:

A all y person godi'r ddwy fraich?



Problemau lleferydd: A all y person siarad yn glir a deall yr hyn rydych chi'n ei ddweud?



Amser i ffonio 999:

os gwelwch unrhyw un o'r arwyddion hyn.

Mae amser yn hollbwysig ar gyfer ymateb i strôc. Gallai oedi wrth ffonio **999** olygu bod rhai cleifion sydd angen thrombectomi yn disgyn y tu allan i'r ffenestr amser ar gyfer triniaeth. Mae mynediad amserol at driniaethau strôc aciwt, fel thrombectomi, yn hanfodol i sicrhau bod gennych y siawns orau bosibl o ganlyniadau gwell.

Bydd gweithredu yn FAST yn rhoi'r cyfle gorau i'r sawl sy'n cael strôc oroesi a gwella. Ffoniwch **999** ar unwaith bob amser.